# Swydd

galeri

**Pennaeth Gweithrediadau**
Pecyn Swydd Hydref 2023
Galeri Caernarfon Cyf.

# Pennaeth Gweithrediadau

Diddordeb yn y sector digwyddiadau a chelfyddydol?

Eisiau arwain weithrediadau canolfan gelfyddydol brysur?

Oes gen ti sgiliau cyfathrebu gwych ac angerdd i gynnig y gwasanaeth cwsmer gorau posib?

Os oes – dyma'r swydd i ti…

Yn wyneb cyhoeddus i Galeri, mae disgwyl i ddeilydd y swydd hon fod yn gyfrifol am roi gwasanaeth rhagorol i'n holl ddefnyddwyr – yn gynulleidfaoedd, cwsmeriaid, ymwelwyr, artistiaid a llogwyr ystafelloedd gan sicrhau bod gweithrediadau'r adeilad yn rhedeg yn esmwyth.

Yn un o ganolfannau celfyddydol blaenllaw Cymru – mae'r swydd hon yn cynnig amrywiaeth o gyfrifoldebau a chyfle i chwarae rhan hollbwysig yn y ffordd mae Galeri yn cael ei redeg a'i weithredu. Mae cyfle yma i gyfrannu tuag at y cynnig, y bwrlwm ac i brofiad ymwelwyr o'u hymweliad â Galeri.

Mae siarad a chyfathrebu yn y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer y swydd yma.
Os hoffech drafod y dwydd ymhellach, cysylltwch â:

**Steffan Thomas**
steffan.thomas@galericaernarfon.com | 01286 685211

# Galeri Caernarfon Cyf - amdanom ni...

Sefydlwyd Cwmni Tref Caernarfon, fel menter gymunedol nid am elw, i adnewyddu canol tref (y dref gaerog) Caernarfon yn 1992.

Roedd nifer o adeiladau gwag yng Nghaernarfon, ac roedd y cwmni yn awyddus i newid hyn ac i wella tref Caernarfon drwy ymgymryd â'r dasg o drawsnewid ac ailwampio rhai o'r adeiladau gwag yma - gan ddod a'r adeiladau yma nol i ddefnydd (siopau / swyddfeydd / salonau / caffis / fflatiau / tai / tafarn ayb).

Newidiwyd ei enw i Galeri Caernarfon Cyf yn 2006, yn dilyn agoriad canolfan Galeri yn 2005. Roedd datblygiad canolfan Galeri yn ymateb i'r cynnydd mewn busnesau creadigol lleol, gyda'r amcan i greu hwb i'r busnesau yma, ac i roi llwyfan i artistiaid/perfformwyr arddangos a rhannu eu gwaith gyda'r cyhoedd - a hynny mewn canolfan/adeilad proffesiynol a phwrpasol.

Erbyn heddiw, mae'r cwmni wedi adnewyddu dros ugain o adeiladau gwag yn y dref oedd wedi eu hesgeuluso, sydd yn awr gyda thenantiaid.

Prosiect diweddaraf y cwmni yw Cei Llechi (ar y cyd hefo Ymddiriedolaeth Harbwr Caernarfon). Dyma brosiect adfywio gwerth £5.9m sydd wedi dod a hen safle diwydiannol bwysig nol i ddefnydd ar gyfer busnesau sydd yn creu/cynhyrchu a manwerthu.

Mae gan y cwmni gynlluniau cyffrous ar gyfer parhau i ddatblygu prosiectau dros y blynyddoedd nesaf ac i'r dyfodol.



# Gweledigaeth y cwmni:

Mae gweledigaeth hirdymor Galeri yn gymharol syml, sef i **GREU CYFOETH CYMUNEDOL** – ar lefel economaidd, amgylcheddol, drwy'r celfyddydau a thrwy brosiectau adfywio asedau/adeiladau.

Byddwn yn cyrraedd ein gweledigaeth drwy:

**"weithredu prosiectau cynaliadwy mewn ffordd greadigol i wireddu potensial diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol y gymuned leol a'r cyffiniau"**

# Diwylliant creadigol yng Nghymru

Y diwydiannau creadigol yw un o'r sectorau yng Nghymru sydd yn tyfu gyflymaf.

Mae'r sector yn gwneud mwy na chreu swyddi a chyfoeth, mae'n cyfrannu at y brand cenedlaethol ac yn helpu i hyrwyddo Cymru, ein diwylliant a'n doniau i'r byd.

Mae diwylliant yn ganolog i'n cymdeithas, i'n hymdeimlad o berthyn i genedl, ac yn hynod o bwysig o ran datblygu hyder, sgiliau a chyflogadwyedd.

Mae'r diwylliant creadigol hefyd yn gwneud cyfraniad hollbwysig i feysydd allweddol eraill o fywyd cyhoeddus, gan gynnwys iechyd, lles, addysg, yr economi ac adfywio.

Fel canolfan – mae Galeri yn hanseyddol wedi bod yn denu 250,000 drwy'r drysau yn flynyddol i fwynhau'r celfyddydau, i gyfarfod ac i gymdeithasu.

*"Mae Galeri wedi arloesi math newydd o gelfyddyd gymunedol soffistigedig drwy ganiatáu i'r gymuned fynegi ei hun a'r math o ddigwyddiadau y maent am eu gweld/cymryd rhan ynddynt yn ogystal â'u hannog i gael blas ar fathau o gelf nad ydynt wedi'u profi o'r blaen."*

**Cynrychiolydd Cyngor Celfyddydau Cymru**

# Prif bwrpas y Swydd:

I weithio llaw yn llaw hefo rheolwyr llinell a staff presennol Galeri i sicrhau profiad eithriadol a chofiadwy i'n **cynulleidfaoedd, cwsmeriaid, ymwelwyr a artistiaid**. A hynny o'r radd flaenaf pob tro.

Fe fyddi yn weithiwr positif, hyblyg, amlorchwyl a blaenweithgar fydd yn:

· Rheoli gweithrediadau dyddiol Galeri tra ar ddyletswydd (swyddfa docynnau / sinema / theatr / ciosg ayb)

· Arwain y staff ar ddyletswydd i sicrhau bod safonau uchel (a hynny yn gyson) o ran gwasanaeth cwsmer, diogelwch, edrychiad a chyfforddusrwydd yr adeilad

· Bwynt cyswllt i ddefnyddwyr Galeri (cynulleidfaoedd / cwsmeriaid / artistiaid/ ymwelwyr / llogwyr ystafelloedd

· Rhedeg digwyddiadau byw (gyda perfformwyr/artistiaid, technegwyr, swyddfa docynnau, Café Bar ayb) yn broffesiynnol, diogel ac effeithiol pan ar Ddyletswydd Rheolwr Blaen Tŷ

· Arwain a Rheoli ar y dasg o greu ROTA staff rheolaidd ac effeithiol (misol yn ddelfryfol)

- Goruchwilio gweithrediadau'r Swyddfa Docynnau a'r Ciosg Sinema

- Cydlynnu a chyfathrebu gwybodaeth gyda ag rhwng Adrannau eraill

- Rhannu gwybodaeth perthnasol a thrylwyr am y Ganolfan a'i gweithrediadau/ digwyddiadau i gwsmeriaid ac ymwelwyr

- Ymateb i ymholiadau gan gynulleidfaoedd / cwsmeriaid / ymwelwyr / artistiaid a delio yn effeithiol hefo unrhyw gwynion neu gamgymeriadau a'u perchnogi

- Sicrhau bod lefelau staffio/stiwardio yn addas ac yn cyd-fynd gydag anghenion/ natur y digwyddiad

- Hyfforddi staff a gwirfoddolwyr fel bo'r angen i gyd-fynd gydag anghenion y busnes a'r protocolau/systemau sydd mewn lle

- Cefnogi gwaith/tasgau adrannau eraill y Cwmni (creadigol / technegol / cyfarfodydd a chynadleddau / cyllid / adnoddau)

- Cydymffurfio gyda polisïau cyflogaeth a iechyd a diogelwch y cwmni



# Mae'r swydd yn un sydd yn cynnig amrywiaeth o ran tasgau a chyfrifoldebau. Ymhlith y prif dasgau mae:

**Rheoli gweithrediadau blaen tŷ y Café Bar:**

· Rheoli'r tîm blaen tŷ/gweini yn y Café Bar
· Recriwtio, hyfforddi ac uwch-sgilio y tîm
· Sicrhau bod gwasanaeth cwsmer rhagorol ar gael bob tro i'n defnyddwyr/cwsmeriaid
· Sicrhau bod safonau glanweithdra a hylendid yn gyson uchel
· Sicrhau bod lefelau staffio yn gywir – yn unol â'r angen ac anghenion
· Sicrhau bod rheolaeth stoc ac archebu
· Ymateb yn effeithiol i ymholiadau staff, tenantiaid a chwsmeriaid, delio hefo unrhyw gwynion a blaenyrru materion sy'n berthnasol i adrannau eraill y Cwmni
· Sicrhau bod bancio dyddiol yn cael ei gwblhau yn gywir
· Cyd-weithio agos gyda'r prif gogydd a'r tîm i gyflwyno syniadau ac awgrymiadau ar ddatblygu ein cynnig

**Rheolwr Blaen Tŷ/ar Ddyletswydd:**

· Rheoli'r adeilad a bod yn bwynt cyswllt tra ar ddyletswydd o safbwynt –
  o staff
  o cynulleidfaoedd
  o cwsmeriaid
  o artistiaid / perfformwyr
  o gwirfoddolwyr
· Arwain a chydlynnu stiwardiaid mewn digwyddiadau
· Ymateb yn effeithiol i ymholiadau cwsmeriaid, casglu adborth a delio hefo unrhyw gwynion fel y pwynt cyswllt cyntaf

**Y Swyddfa Docynnau:**

- Cynnig gwasanaeth rhagorol a chyson-ymateb yn effeithiol i ymholiadau staff, tenantiaid a chwsmeriaid, delio hefo unrhyw gwynion a blaenyrru beth sy'n berthnasol i adrannau eraill y Cwmni
- Gweithredu pob agwedd o ddyletswyddau'r Swyddfa Docynnau boed o'n lanweithdra, taclusrwydd, cadw safonau Iechyd a Diogelwch, gweithdrefnau mewn achosion brys neu argyfwng, gwaith gweinyddol, balansio a chywirdeb adroddiadau, postio ayy
- Cyfathrebu'n rheolaidd gyda cwmnïau cynhyrchu/artistiaid (gyrru ffigyrau gwerthiant ayb)
- Rheoli a gwarchod gwybodaeth cyfrinachol yn unol â deddfwriaeth GDPR

**Y Sinema:**

- Gweithredu a bod yn gyfrifol am ddyletswyddau'r ciosg sinema tra ar ddyletswydd gan sicrhau bod cyflenwad stoc rheolaidd ac anmrywiol yn y ciosg sinema
- Goruchwylio glendid a thaclusrwydd y sgrins sinema
- Sicrhau bod yr offer/peiriannau/ardal y ciosg wedi'u glanhau yn unol â rheoliadau iechyd a diogelwch a safonnau glendid
- Sicrhau bod bancio dyddiol yn cael ei gwblhau
- Cynnig syniadau ac awgrymiadau ar sut gellir gwella systemau a gwasanaeth

**Rhoddir hyfforddiant ac ynwythiad llawn ar gyfer holl agweddau'r swydd.**



# Chi

## Ymhlith y cymhwyseddau a sgiliau sydd angen ar gyfer y swydd mae:

---

· Gallu gweithio patrwm oriau hyblyg (yn unol a natur y swydd) – yn cynnwys gyda'r nos, penwythnosau a gwyliau banc

· Awyddus i ddatblygu eu hunain fel unigolyn a dysgu sgiliau newydd

· Arddangos hunan gred a gonestrwydd

· Sgiliau cyfathrebu gwych ar lafar neu'n ysgrifenedig (Cymraeg a Saesneg)

· Egnïol, cyfrifol, brwdfrydig, cwrtais, angerddol

· Agwedd "gallu gwneud" ac yn rhagweithiol bob amser- y gallu i wneud gwahaniaeth positif a chofiadwy i'r cwsmer, trosgludo lefel uchel o wasanaeth heb oruchwyliaeth barhaol

· Sgiliau pobl gwych – delio gyda'r cyhoedd, cwmniau preswyl ac artistiaid

· Sgiliau cyfrifiadurol (Microsoft) a gallu dysgu meddalweddau newydd (gyda hyfforddiant) e.e. Ticketsolve – system docynnau presennol Galeri

· Y gallu i weithio yn rhan o dîm, cefnogi cyd-weithwyr a hyrwyddo ysbryd da

· Sgiliau rhifedd – i allu cyfri yn sydyn a sicrhau cywirdeb cyson o'r fflôt, til a newid mân

· Sgiliau datrys problemau

· Dangos sylw manwl at fanylion ac arddangos safon uchel o waith, rheoli amser a hyblygrwydd

· Unigolyn sy'n gwerthfawrogi ac sy'n ymrwymedig i ddiwylliant gwahanredol y Cwmni

· Hyderus i gyfrannu syniadau er mwyn gwella gwasanaeth cwsmer

· Angerddol am y celfyddydau/ dealltwriaeth o'r sector celfyddydol a gweledigaeth Galeri

· Yn ddelfrydol – profiad o arwain Tîm

· Yn ddelfrydol – profiad o greu a gweithredu asesiadau risg

· Yn ddelfrydol – tystysgrif/cymhwyster cymorth cyntaf

# Telerau ac amodau'r swydd

**Teitl:** Pennaeth Gweithrediadau

**Yn atebol i:** Tîm Rheoli Galeri

**Cyflog**: £21,000 - £26,000 (Pro rata)

**Oed:** Swydd yn addas i oed 18+.

**Cyfnod:** Parhaol (yn ddibynnol ar gyfnod prawf o 6 mis)

**Oriau gwaith:** Cytundeb 35 - 40 awr yr wythnos ar gael – ROTA Llun – Sul fydd yn cynnwys oriau gyda'r nos / penwythnosau / Gwyliau Banc

**Lleoliad:** Mae'r swydd wedi ei leoli yn Galeri, Caernarfon.

Mae'r gallu i gyfathrebu yn effeithiol a chlir yn y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer y swydd hon.

Fel cyflogwr, rydym yn hyrwyddo cyfle cyfartal. Croesewir ceisiadau o bob rhan o gymdeithas er mwyn adlewyrchu'r ddemograffeg leol ac yn ehangach yn fanwl gywir – a thrwy hynny ein helpu i gyflawni ein gweledigaeth.

Am gopi print bras o'r pecyn yma, cysylltwch efo

**Steffan Thomas ar 01286 685211 neu steffan.thomas@galericaernarfon.com.**

**Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno eich ffurflen gais:**
**12:00 (hanner dydd) – dydd Mercher, 08.11.23**

Cyfweliadau i'w cynnal wythnos yn dechrau 13.11.2023

---

Dyddiad cychwyn: Cyn gynted a phosib